NASUWT
The Teachers' Union

BWLETIN

# Y diweddaraf am y codiad cyflog ar gyfer 2021/22

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr wedi cyhoeddi ei chylchlythyr ar gyfer 2021/22 am y codiad cyflog i athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl.

Mae cylchlythyr y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cadarnhau na fydd unrhyw godiad cyflog ar gyfer 2021/22 i athrawon ysgol yn Lloegr, heblaw i'r rheiny sy'n ennill £24,000 neu lai y flwyddyn (£25,194 ar Ymylon Llundain, £27,419 yn Llundain Allanol a £28,681 yn Llundain Fewnol), a fydd yn derbyn codiad cyflog o £250. Mae hyn yn berthnasol i'r athrawon dosbarth a'r athrawon arweiniol hynny a gyflogir dan delerau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD).

**Dylai'r athrawon hynny sydd ar raddfeydd cyflog hyfforddwyr A a B dderbyn taliad o £250 ar yr un sail ag athrawon mewn ysgolion yn Lloegr a gyflogir dan delerau'r STPCD.**

Mae rhagor o wybodaeth am y codiad cyflog ar gyfer 2021/22 i athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yn Lloegr i'w gweld ar: www.nasuwt.org.uk/EnglandPayAward.

Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (Cymru) yn gosod y trefniadau cyflog i athrawon mewn sefydliadau preswyl yng Nghymru, sy'n cynnwys codiad cyflog o 1.75% i athrawon yng Nghymru ar gyfer 2021/22. Mae'r graddfeydd cyflog ar gyfer athrawon yng Nghymru'n orfodol, felly disgwylir i sefydliadau adolygu eu graddfeydd cyflog i adlewyrchu'r codiad cyflog hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y codiad cyflog ar gyfer 2021/22 i athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yng Nghymru i'w gweld ar: www.nasuwt.org.uk/WalesPayAward.

**Er gwaethaf hynny, ni chytunodd NASUWT â'r cylchlythyr am nad yw'n cyfeirio at yr effaith a gafodd rhewi cyflogau ar gyfer 2021/22, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Athrawon, ar yr athrawon hynny sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yn Lloegr.**

## Y broses o fynegeio yn y Cynllun Pensiwn Athrawon mewn perthynas ag athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yn Lloegr

Gallai'r cadarnhad yn y STPCD na fydd unrhyw godiad cyflog ar gyfer 2021/22 effeithio ar y ffordd y mae rhai pensiynau yn y Cynllun Pensiwn Athrawon sydd wedi eu seilio ar gyflogau terfynol yn cael eu cyfrifo, oherwydd y ffordd y mae'r rheoliadau'n gweithio.

Mae rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2010 – sy'n berthnasol i'r cynllun hwn – yn nodi y byddai'r dull o gyfrifo cyflogau cyfartalog ar sail 'y tair blynedd orau yn olynol allan o ddeg' yn gweithredu'r broses o fynegeio dim ond os bydd y gyfradd cyflog yn newid.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn derbyn bod hyn yn disgrifio'r sefyllfa'n gywir.

Felly, mae peidio ailbrisio'n arwain at ostyngiad yn y pensiynau y bydd aelodau'n eu derbyn ar ôl ymddeol os bydd unrhyw gyfnod o rewi cyflogau'n rhan o'r 'tair blynedd orau yn olynol allan o ddeg'. Felly, gallai blwyddyn 2021/22 achosi colledion i'r aelodau hynny sydd ar frig eu hystod cyflog neu'r rheiny nad ydynt yn derbyn datblygiad cyflog, ond sy'n bwriadu ymddeol neu ymadael â'r proffesiwn addysgu yn ystod y deng mlynedd nesaf, ac y cyfrifir eu pensiynau drwy ddefnyddio Dull B ('y tair blynedd orau yn olynol allan o ddeg').

Er bod yr Adran Addysg wrthi'n ystyried a oes angen adolygu'r rheoliadau i atal y broblem hon rhag codi yn y dyfodol, ni fydd hyn yn datrys y problemau y bydd aelodau'n eu hwynebu eleni.

Felly, mae NASUWT, ar y cyd ag ASCL, NAHT, NEU a Voice, wedi ysgrifennu at bob cyflogwr yn Lloegr i dynnu sylw at y broblem a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Mae'r llythyr gan y pum undeb yn disgrifio ffordd ymarferol o sicrhau bod y rheoliadau'n gweithio fel y dylent drwy ofyn i gyflogwyr wneud newid yn y gyfradd gyflog i sbarduno'r broses o fynegeio yn y Cynllun Pensiwn Athrawon. Does dim trothwy penodol ar gyfer taliadau a allai sbarduno'r broses o fynegeio yn y Cynllun Pensiwn Athrawon, felly byddai taliad o ddim ond £1 yn ddigonol.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â mynegeio yn y Cynllun Pensiwn Athrawon, mewn perthynas ag athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl, i'w gweld ar: **www.nasuwt.org.uk/TPSIndexationEngland.**